# Sesiwn 1: Cyflwyniad i'r Beibl
## Arweiniad Grwpiau Bychan

### **Cynhesu** (cysylltu â'r thema)

*Mae straeon yn rymus. rhannwch rhai o'ch hoff straeon - efallai o ffilm, lyfr neu ddrama. Rhannwch y rheswm dros eich dewis.*

*Mae byd-olwg rhywun yn cael ei ddatgelu mewn straeon. O edrych ar y byd o'n cwmpas, a ydym angen profi stori well? Pam y gallai'r Beibl gynnig stori well?*

### **Neges** (fideo cryno)

Fideo pump i saith munud gan Jos Edwards sy'n crynhoi stori fawr y Beibl a sut mae'n berthnasol i'n bywydau ni.

### **Darlleniadau beiblaidd** (i'w cyd-ddarllen)

*2 Timotheus 3.15–17, Salm 119.105–114, Luc 24.13–35*

### **Amser trafod**


- Rydym yn sôn am y Beibl fel llenyddiaeth gyda'r gorau. A oes gennych hoff ddarn, adnod neu stori o'r Beibl?
- Beth yw eich profiad o ddarllen y Beibl? Beth yw'r llawenydd a thristwch rydych wedi ei wynebu gydag ef?
- A yw yn eich synnu bod y Beibl yn un stori fawr? Beth yw'r llinynnau sydd yn cysylltu'r cyfan? Darllenwch Luc 24.13-35 ac ystyriwch y gwahaniaethau y gall gweld y Beibl fel un stori o harmoni rhyfeddol ei wneud i chi heddiw?
- Mae rhywbeth rhyfedd yn digwydd pan mae pobl yn cysylltu â'r Beibl. Beth wnewch chi o'r honiad hwn? Ydych chi erioed wedi profi hyn?

### **Amser ymateb** (adlewyrchu a gweddïo)

Darllenwch 2 Timotheus 31.6 eto. Cymrwch amser i adlewyrchu ar yr adnod hon a nodwch rywbeth o'r adnod/ddysgeidiaeth sydd wedi eich ysbrydoli. Treuliwch amser mewn gweddi gyda'ch gilydd yn gofyn i Dduw siarad gyda chi a'ch trawsffurfio wrth i chi ddilyn y daith yma drwy stori'r Beibl cyfan.

### **Cynnwys dyddiol**

Parhewch â'r daith yr wythnos hon trwy ddarllen y penodau dyddiol o gynnwys ac Ysgrythur yn llyfr y gyfres gan Andrew Ollerton, *The Bible: A Stori that makes sense of life* (Hodder).




CYMDEITHAS Y BEIBL